Datganiad Grant Gwella Addysg Ysgol David Hughes 2025 - 2026

Diben y Grant Gwella Addysg (GGA) yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr drwy:

- gwella ansawdd addysgu a dysgu;
- cael gwared â rhwystrau sy'n atal dysgu a gwella cynhwysiant;
- gwella arweinyddiaeth mewn lleoliadau addysgol; a
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac ennyn diddordeb dysgwyr fwyfwy mewn dysgu.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GGA i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2025-2026 rhoddwyd i Ysgol David Hughes ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o £83,000.

Yn Ysgol David Hughes mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Môn i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel er mwyn gwella'r dysgu ac addysgu a sicrhau gweithlu proffesiynol rhagorol
- Sicrhau cwricwlwm apelgar a phriodol i'n dysgwyr

- Sicrhau amser Cyd-lynwyr Llythrennedd a Rhifedd sy'n arwain darpariaeth o safon ac sy'n sicrhau ymyrraethau priodol
- Gyflogi Swyddog Bugeiliol a Swyddog Gweinyddol Bugeiliol er mwyn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr bregus a'u teuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn:
    - Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr bregus a'u cyfoedion
    - Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol disgyblion er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad ac er mwyn eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol a gwydn
- Rhoi cefnogaeth benodol i ddysgwyr bregus o flwyddyn 7 -11 a sicrhau eu bod yn cael mynediad at weithgareddau allgyrsiol a chwricwlaidd ee anogaeth dysgu a gwaith y penaethiaid blwyddyn
- Gyflogi Swyddog Presenoldeb er mwyn cael gwasanaeth bob dydd o'r wythnos i wella presenoldeb dysgwyr bregus

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.